| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **20 Ebrill 2015** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 6141/201400682

Dyddiad derbyn: 29/04/14

**Cwyn**

Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi cam ddefnyddio ei safle er mwyn cael mantais ariannol.

**Penderfyniad**

Ombwdsmon am ymchwilio i rai agweddau o'r gwyn

### 2.2 Achos 201402810

Dyddiad derbyn: 28/07/14

**Cwyn**

Wedi anfon e-bost at fudiad lleol ar ran y cyngor cymuned ond heb ei gymeradwyaeth.

**Penderfyniad**

Cyfeirio at y Swyddog Monitro i ymchwilio ac adrodd i'r Pwyllgor Safonau. Pwyllgor Safonau i benderfynu ar y gŵyn ar 13/4/15.

**2.3 Achos 201403463**

Dyddiad derbyn: 18/07/14

**Cwyn**

Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod tri o'i gyd-aelodau wedi methu datgan buddiant.

**Penderfyniad**

Ymchwiliad yn parhau mewn perthynas ag un aelod.

**2.4 Achos 201404314**

Dyddiad derbyn: 29/09/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor cymuned wedi methu datgan buddiant personol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad.  Dim tystiolaeth fod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ar y pryd.

**2.5 Achos 5847/201404989 & 5847/201404990**

Dyddiad derbyn: 21/10/14

**Cwyn**

Cwyn fod aelod cyngor tref wedi ymddwyn mewn modd oedd yn dwyn anfri ar y cyngor.

**Penderfyniad**

Ystyried os am ymchwilio.

**2.6 Achos 201408375**

Dyddiad derbyn: 02/02/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi methu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol men cysylltiad â chontract ac wedi bod yn sarhaus. Ei fod wedi dynwared person arall ac wedi masnachu yn amhriodol drwy berson arall.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth ddigonol wedi ei ddarparu i gadarnhau’r cyhuddiad. Nid yw’r Ombwdsmon yn ymchwilio heb dystiolaeth resymol o gryf bod aelod wedi torri’r cod.

**2.7 Achos 8136/201408378**

Dyddiad derbyn: 29/01/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi defnyddio iaith oedd yn sarhaus a hiliol mewn e-bost yn beirniadu aelodau o’r cyhoedd oedd yn bresennol mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Nid oedd yn ystyried fod y geiriau a ddefnyddiwyd yn hiliol yn y cyd-destun y defnyddiwyd hwy. Serch hynny, roedd hi’n debygol y gallai eu defnydd fod yn groes i’r cod drwy fod yr aelod wedi methu dangos parch ac ystyriaeth i eraill fel sy’n ofynnol dan baragraff 4(b) o’r cod. Wedi dweud hynny, nid oedd yr Ombwdsmon yn credu y byddai cosb yn cael ei rhoi hyd yn oed os byddai hyn yn cael ei brofi.

**2.8 Achos 201408381**

Dyddiad derbyn: 29/01/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi anfon e-bost yn cytuno gyda chynnwys yr e-bost y cyfeirir ato yn 2.7 uchod ac felly yn euog o fod yn hiliol a sarhaus ei hun.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Roedd yr aelod yn mynegi barn, ac nid oedd y modd y gwnaeth hynny yn groes i unrhyw ran o’r cod.

**2.9 Achos 8368/2014**

Dyddiad derbyn: 09/03/15

**Cwyn**

Bod aelod wedi tresmasu ar eiddo’r achwynydd, wedi dadlau ag ef ac wedi cydio yn ei fys a’i blygu /nôl. Galwyd yr heddlu.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth bod yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd. Nododd yr Ombwdsmon bod yr heddlu wedi eu galw.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth.